CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

# Town and Community Councils Liaison Meeting

**Nos Iau, 21 Gorffennaf 2016**
**7.00 yh**

**Thursday, 21 July 2016**
**7.00 pm**

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Council Chamber
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

## Rhaglen

## Agenda

### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

### 1. Welcome and Apologies

### 2. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2016. **(Papur A)**

Yn codi o’r cofnodion:

**2.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 – Ymgynghori gyda’r cymunedau**

Cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Partneriaethau ar y camau nesaf.

### 2. Confirmation of Minutes

To confirm the minutes of the meeting held on 28 April 2016. **(Paper A)**

Arising from the minutes:

**2.1 Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 – Consultation with the communities**

Presentation by the Senior Partnerships Manager on the next steps.

### 3. Gwefan ‘Dewis Cymru’

Cyflwyniad ar y wefan uchod**.**

### 3. ‘Dewis Wales’ Website

Presentation on the above website.

### 4. Cyfraddau Ailgylchu

Gwybodaeth am gyfraddau ailgylchu, yn unol â’r weithred a nodwyd yng nghyfarfod y Fforwm ar 19 Tachwedd 2015.

### 4. Recycling Rates

Information on recycling rates, in accordance with the action noted at the Forum meeting on 19 November 2015.

## 5. Grŵp Rhanddeiliaid

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016. **(Papur B)**

## 5. Stakeholder Group

To submit the minutes of the meeting held on 29 June 2016. **(Paper B)**

## 6. Y Grid Cenedlaethol - Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

Cymorth i Gynghorau Tref a Chymuned i ymateb i'r ymgynghoriad - Diweddariad gan Swyddfa Rheoli Prosiectau'r Cyngor (Prosiectau Mawr sy'n ymwneud ag Ynni).

## 6. National Grid – North Wales Connection Project

Assistance for Town and Community Councils to respond to the consultation - Update by the Council's Project Management Office (Major Energy Projects).

## 7. Ap Môn

Cyflwyniad gan y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh, ar bwrpas Ap Môn.

## 7. App Môn

Presentation by the ICT Business Transformation Manager on the purpose of App Môn.

## 8. Fforwm Sgriwtini

Diweddariad ar raglenni gwaith y ddau Bwyllgor Sgriwtini **(Papur C).**

## 8. Scrutiny Forum

Update on the work programmes of the two Scrutiny Committees **(Paper C).**

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**
Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 28 Ebrill 2016
yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7.00 yh

**Yn bresennol:** **PAPUR A**

**Cynghorau Tref a Chymuned**

| | |
|---|---|
| Cyng Gwynn Jones | Amlwch |
| Cyng Gwen Evan-Jones | Biwmares |
| Cyng Stan Zalot | Biwmares |
| Cyng Kenneth P Hughes | Cylch y Garn / Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng Mairede Thomas | Cwm Cadnant |
| Cyng John Griffith | Cwm Cadnant / Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng Richard Barker | Porthaethwy |
| Meinir Davies | Porthaethwy |
| Cyng Elfed Jones | Llanbadrig |
| Geraint Parry | Llanddona / Llangoed |
| Cyng Delyth Owen | Llanfaelog |
| Richard Rowlands | Llanfaelog |
| Cyng Gwilym O Jones | Llanfair yn Neubwll / Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng Gareth Cemlyn Jones | Llanfairpwllgwyngyll |
| Cyng R Meirion Jones | Llanfairpwllgwyngyll / Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng Ian Owen | Llanfihangel Esceifiog |
| Cyng Einion Williams | Llanfihangel Esceifiog |
| Janice M Davies | Llangefni |
| Cyng Llinos G Jones | Llangefni |
| Cyng Margaret Thomas | Llangefni |
| Cyng Dylan Rees | Llangefni / Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng J E Lewis | Llangefni / Bodffordd |
| Cyng A W Jones | Mechell |
| Eifion H Jones | Pentraeth |
| Cyng Elliot Riley-Walsh | Pentraeth |
| Cyng Alan Benson | Trearddur |
| Cyng Anwen McCann | Trearddur |
| Anna Jones | Tref Alaw |
| Cyng Edna Jones | Trewalchmai |
| Margaret Price | Trewalchmai |
| Cyng Gordon Browne | Y Fali |
| Cyng Mavis Swaine-Williams | Y Fali |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Cyng Ieuan Williams | Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |
| Cyng Alwyn Rowlands | Deilydd Portffolio (ar gyfer eitem 3.2) |
| Dr Gwynne Jones | Prif Weithredwr |
| Annwen Morgan | Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau |
| Anwen G Davies | Swyddog Effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Llio Johnson | Uwch Reolwr Partneriaethau |
| Huw Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |

| | |
|---|---|
| Mike Wilson | Cadeirydd - Pwyllgor Safonau |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**
Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 28 Ebrill 2016
yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7.00 yh

**Menter Môn**

| | |
|---|---|
| Elfed Roberts | Swyddog Datblygu Cymunedol |
| Jackie Lewis | Swyddog Datblygu Cymunedol |

**1. Ymddiheuriadau**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Cliff Everett (Cyngor Tref Caergybi)
Cyng Bill Rowlands (Cyngor Cymuned Trearddur)
Cyngor Cymuned Llanerchymedd
Y Cynghorwyr Derlwyn Hughes, R G Parry OBE (Cyngor Sir Ynys Môn)

**2. Cadarnhau Cofnodion**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod ar gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2015 fel rhai cywir.

**3. Grwp Rhanddeiliaid**

**3.1 Cofnodion**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd y Grwp Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

3 Chwefror 2016
9 Mawrth 2016 (Is-Grwp ardal Canolbarth Môn)
6 Ebrill 2016

**3.2 Teclyn Partneriaethol**

Cafwyd cyflwyniad gan Anwen Davies ar Declyn Partneriaethol a ddatblygwyd fel rhan o gyfres o ddogfennau a fydd hefyd yn cynnwys polisi partneriaethau a chofrestr gorfforaethol o bartneriaethau. Eglurwyd mai nod y teclyn oedd sicrhau bod cymorth a gwybodaeth ddigonol ar gael i gefnogi grwpiau cymunedol sy'n edrych ar ddatblygu gwaith partneriaethol. Cafwyd sicrwydd gan y Cyng Alwyn Rowlands y byddai cymorth a chefnogaeth yn parhau i fod ar gael trwy gydol y cyfnod trosiannol hyd nes y byddai'r fenter wedi'i sefydlu'n iawn.

Awgrymwyd mai'r cam nesaf fyddai cynnal cyfres o weithdai esboniadol i gynghorwyr tref a chymuned, gyda'u lleoliadau'n seiliedig ar ddalgylchoedd y 5 Cyngor Tref. Awgrymwyd o'r llawr dylid symleiddio geiriad y teclyn, yn benodol rhai termau technegol, cyn ei gyflwyno i'r cynghorau unigol.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd trafodaeth gyffredinol, gan gynnwys y pwyntiau isod:


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

- yr angen i edrych ar y darlun yn ehangach ac ystyried sut a gan bwy fyddai'r gwasanaeth yn cael ei redeg orau, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cynhyrchu incwm.

- y dylid manteisio ar unrhyw achosion o arfer da mewn bodolaeth trwy geisio eu hymestyn ar draws yr ynys.

- y dylai trafodaethau gymryd i ystyriaeth unrhyw ddatblygiadau posibl dros y tymor hirach a fyddai'n cael effaith ar fentrau cymunedol - dyfodol y cynghorau sir, er enghraifft.

O ran gwaith sydd eisoes ar y gorwel, dywedodd yr Arweinydd bod angen i'r Cyngor Sir roi ystyriaeth buan i ddyfodol y toiledau cyhoeddus sy'n parhau i gael eu rhedeg gan y sir. Egurodd mai'r cam cyntaf fyddai anfon llythyrau'n unigol i'r cynghorau cymuned perthnasol yn cynnig trosglwyddo cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus i'r gymuned.

**Gweithredu:**

- Adolygu a symleiddio geiriad y Teclyn Partneriaethol.
- Gweithdai esboniadol i'w trefnu i gynghorwyr tref a chymuned ar draws yr ynys, a hynny mewn lleoliadau sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd y 5 cyngor tref.
- Y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i ysgrifennu at y cynghorau cymuned perthnasol unigol mewn perthynas â'r posibilrwydd o drosglwyddo cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus i'r gymuned.

**3.3 Rhannu Arfer Da**

Cafwyd amlinelliad gan Elfyn Roberts a Jackie Lewis (Menter Môn) mewn perthynas â thrafodaethau a gynhaliwyd hyd yn hyn ar opsiynau posibl ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Eglurwyd mai prif rôl swyddogion Menter Môn oedd cynnig cefnogaeth ymarferol, gan gynnwys egluro pa gefnogaeth ariannol sydd ar gael a'u cynorthwyo i wneud cais amdano.

Nodwyd bod trafodaethau'n parhau gyda Chyngor Tref Llangefni, gyda rhestr o asedau sy'n cynnal gwasanaeth bellach ar gael ac wedi'i chylchredeg er sylwadau. Nodwyd hefyd y byddai Cyngor Tref Llangefni yn ystyried argymhellion yr Is-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Mai.

Eglurwyd bod trafodaethau'n parhau gyda Chyngor Tref Porthaethwy mewn perthynas â'r Llyfrgell. Nodwyd y bwriad i gynnal cyfafod cyhoeddus ym Mhorthaethwy ar 18 Mai er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'r gymuned a sicrhau perchnogaeth a chefnogaeth yn lleol cyn symud ymlaen.

Cyfeiriwyd at rai pryderon a fynegwyd yn y cyfarfodydd cyhoeddus diweddar mewn perthynas â Thrawsnewid Llyfrgelloedd, a hynny o ran sicrwydd ariannol a'r goblygiadau petai gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn rhedeg llyfrgelloedd. Eglurwyd y byddai modd gwneud cais am arian 'Leader' i


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

gynnal astudiaeth dichonoldeb mewn perthynas â chostau rhedeg a sicrhau incwm. Nodwyd hefyd y disgwylir arweiniad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u disgwyliadau o ran y gwasanaeth llyfrgelloedd – y dealltwriaeth oedd y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn fuan.

Cyfeiriwyd at y trefniadau presennol ar gyfer marchnata twristiaeth a mynegwyd siom nad oedd yna ganolfan groeso ar yr ynys bellach. Eglurwyd bod taflenni marchnata ar gael mewn lleoliadau amlwg a bod cynlluniau mewn lle ar gyfer hyfforddi staff rheng-flaen o fewn y lleoliadau hyn i'w galluogi i ymgymryd â'r rôl. Yn ogystal, mynegwyd pryder bod strategaeth farchnata'r Cyngor bellach yn canolbwyntio ar ddulliau digidol. Pwysleiswyd nad pawb oedd â'r gallu i ddefnyddio, na mynediad at y rhyngrwyd.

Yn codi o'r drafodaeth ar dwristiaeth, gwnaed yr ymholiadau canlynol mewn perthynas ag ailgylchu:

Cyfleusterau ailgylchu mewn mannau twristiaeth ym Miwmares – os na fyddai gwella cyfleusterau ailgylchu mewn mannau twristiaeth yn gost-effeithiol, beth yw'r costau cyfredol o ddanfon y gwastraff yma i safleoedd tirlenwi (Cyngor Tref Biwmares).

Glanhau traethau – a fyddai'n fwy cost-effeithiol defnyddio cyfleusterau ailgylchu yn hytrach na defnyddio sgipiau sy'n mynd i safleoedd tirlenwi (Cyngor Cymuned Trearddur)

**Gweithredu:** Gofyn am wybodaeth gan y Gwasanaeth Gwastraff ac ymateb i'r ddau gyngor uchod.

## 4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cafwyd cyflwyniad gan Llio Johnson ar oblygiadau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gynghorau Tref a Chymuned, sy'n ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i gyrff cyhoeddus perthnasol feddwl mwy am y tymor hir; gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd; ceisio atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig.

Nodwyd hefyd bod y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar rai cynghorau tref a chymuned i gymryd pob cam rhesymol tuag at ddiwallu'r amcanion lleol a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol. Mae'r dyletswydd yma ar Gynghorau sydd ag incwm neu wariant gros o leiaf £200,000 am bob un o'r tair mlynedd ariannol cyn y flwyddyn y caiff y cynllun llesiant lleol ei gyhoeddi - bydd angen cyhoeddi'r cynllun erbyn Ebrill 2018. Nodwyd bod dau gyngor yn dod o fewn y diffiniad uchod ym Môn.

Rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - sydd yn gyfrifol am ddatblygu'r cynllun - ymgynghori â'r holl gynghorau tref a chymuned yn ei ardal ynghylch y cynllun llesiant lleol. Hefyd, dylai'r cynghorau tref a chymuned ystyried y cynllun llesiant lleol ac adolygu'r amcanion ochr in ochr â'u hamcanion eu hunain ar gyfer y flwyddyn i ddod.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

O ran mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol a bod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu dangosyddion lleol.

**Gweithredu:**

Rhagor o fanylion am y gofynion a'r dangosyddion cenedlaethol i'w cylchredeg i'r cynghorau cymuned.

**5. Diogelwch Cymunedol**

Yn dilyn cais gan Gyngor Tref Llangefni, cafwyd cyflwyniad gan Annwen Morgan ar y trefniadau lleol o ran Diogelwch Cymunedol.

Mae gofyniad statudol i gynghorau weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaethau Iechyd, Prawf a Thân ac Achub. Blaenoriaethau presennol Môn a Gwynedd yw lleihau trosedd ac anrhefn; atal camddefnyddio sylweddau a lleihau ail droseddu.

Eglurwyd bod adroddiadau perfformiad ar lefel sirol yn cael eu cyhoeddi gan yr Heddlu ac y bwriedir rhannu'r adroddiad yma gyda chynghorau tref a chymuned er gwybodaeth.

**Gweithredu:** Cylchredeg adroddiad yr Heddlu ar gyfer 2015/16 i gynghorau tref a chymuned.

Yn olaf, nodwyd bod y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 yn galluogi cynghorau i ddirprwyo pwerau i swyddogion priodol er mwyn eu caniatau i weithredu ystod ehangach o bwerau i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau cysylltiedig. Bwriedir gofyn i'r Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 12 Mai, fabwysiadau'r pwerau o fewn y ddeddf a'u dirprwyo i swyddogion y Cyngor.

**6. Eitemau ar raglenni'r Fforwm Cyswllt**

**Gweithredu:** Gwahoddwyd cynghorau tref a chymuned i adael i'r Cyngor Sir wybod os ydynt yn dymuno cynnwys eitem ar raglen y Fforwm Cyswllt.

**7. UFA**

Nodwyd, er gwybodaeth, bod Cyngor Cymuned Llanfaelog bellach wedi ymuno â 'Society of Local Council Clerks' - http://www.slcc.co.uk/

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 yh.

# Grŵp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016 am 5.30 yh.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Cyng Richard Barker | Cyngor Tref Porthaethwy |
| Cyng J Egryn Lewis | Cyngor Cymuned Bodffordd/Tref Llangefni |
| Cyng Margaret Thomas | Cyngor Tref Llangefni |
| Cyng Ieuan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dr Gwynne Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Scott Rowley | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhian Wyn Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyng Gwynn Jones | Cyngor Tref Amlwch |
| Cyng Einion Williams | Cyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog |
| Jackie Lewis | Menter Môn |

## 1. Nodiadau'r cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2016 fel rhai cywir.

Yn codi:

**Eitem 2 (b) Adborth**

Cyfeiriodd y Cyng Egryn Lewis at y rhestr o asedau a gylchredwyd i aelodau Cyngor Tref Llangefni am sylwadau, gan nodi bod y Cyngor wedi rhoi sylw i'r rhestr ond bod oedi wedi digwydd oherwydd amgylchiadau anorfod.

## 2. Trosglwyddo Asedau – Polisi'r Cyngor

Nodwyd bod Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ar 31 Mai 2016, wedi mabwysiadu trefniadau newydd ar gyfer trosglwyddo asedau, fel rhan o adolygiad o Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor. Mae'r polisi newydd yn symleiddio, safoni a hwyluso'r broses o drosglwyddo asedau ac yn adlewyrchu'r newidiadau i arferion marchnata ers i'r polisi gael ei adolygu ddiwethaf.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**3. 5 Tref**

Eglurodd yr Arweinydd nad oedd modd i Jackie Lewis (Menter Môn) fod yn bresennol yn y cyfarfod am resymau anorfod. Rhoddodd yr Arweinydd amlinelliad cryno o'r sefyllfa fel yr oedd yn ei deall, gan gynnwys:

- Bwriad i gomisiynu astudiaeth o'r opsiynau trwy 'Leader'
- Grwpiau cymunedol – bwriad i ariannu astudiaeth i ganfod opsiynau a chostau, gyda'r nod o gwblhau'r adroddiad erbyn Hydref 2016
- Creu cynlluniau busnes gyda'r grwpiau erbyn Ionawr 2017

Roedd aelodau'r grŵp yn bryderus bod yr amserlen uchod yn uchelgeisiol ac o'r farn bod angen bod yn fwy realistig o ran disgwyliadau.

Dywedodd y Cyng Margaret Thomas bod y 5 Tref wedi cyfarfod ar 15 Mehefin, pryd y daethpwyd i'r casgliad bod angen mwy o eglurder gan y Cyngor Sir ar oblygiadau'r gwahanol opsiynau. Awgrymwyd y dylai'r 5 Tref roi gwybod i'r Cyngor ymlaen llaw pa agweddau penodol y maent eisiau trafod , a hynny er mwyn arbed amser.

Cytunodd y Cyng Margaret Thomas i gydlynu'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod trwy gysylltu â gweddill aelodau'r grŵp 5 Tref.

**4. Toiledau Cyhoeddus**

Dywedodd yr Arweinydd bod cytundeb glanhau toiledau cyhoeddus y Cyngor yn dod i ben ym Mawrth 2017 a bod y Cyngor wedi ysgrifennu at y cynghorau cymuned perthnasol yn cynnig trosglwyddo cyfrifoldeb am y toiledau iddynt yn unol â'r amserlen ganlynol:

Cynghorau Cymuned i fynegi diddordeb - erbyn 1 Gorffennaf 2016
Pecyn gwybodaeth i'w ddanfon i'r cynghorau sy'n mynegi diddordeb - erbyn 15 Gorffennaf 2016
Cytundeb cyfreithiol i'w baratoi - erbyn 7 Hydref 2016
Llofnodi cytundeb cyfreithiol - erbyn 30 Tachwedd 2016

Dywedodd y Cyng Margaret Thomas bod diddordeb gan Gyngor Tref Llangefni, ond yn amodol ar gytuno telerau gyda'r Cyngor Sir, gan gynnwys taclo problemau fandaliaeth a chamddefnydd o'r toiledau. Eglurodd bod angen trafodaeth bellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar 4 Gorffennaf ac felly na fyddai modd iddynt ymateb yn ffurfiol erbyn y dyddiad cau.

Gofynnodd y Cyng Egryn Lewis os oedd modd cael gwybodaeth fesul toiled unigol am unrhyw gostau atgyweirio o ganlyniad i fandaliaeth neu gamddefnydd yn y gorffennol.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Cwestiynodd y Cyng Richard Barker yr angen i lynu at amserlen mor dynn a phroses mor gaeth. Dywedodd bod angen llawer mwy o hyblygrwydd yn y broses er mwyn sicrhau bod y Cynghorau Cymuned yn cael gweithio gyda'r Cyngor Sir i ganfod datrysiad sy'n addas i'r ddwy ochr.

Er mwyn hwyluso'r broses, awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai'r Cynghorau, fel rhan o'u hymatebion, gynnwys rhestr yn amlinellu'r materion y maent yn dymuno trafod ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

**5. Teclyn Partneriaethol**

Cafwyd diweddariad gan Annwen Morgan fel a ganlyn:

- Y Teclyn Partneriaethol wedi'u lansio yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm Cyswllt a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2016 a hanner yr atodiadau bellach wedi'u paratoi, gyda gwaith yn parhau ar y gweddill.

- Yn unol â phenderfyniad y Fforwm Cyswllt yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill, roedd fersiwn haws i'w ddarllen wedi ei baratoi ac ar gael mewn un iaith ar hyn o bryd. Bwriedir cylchredeg y Teclyn am sylwadau'r Grŵp hwn unwaith y bydd ar gael yn y ddwy iaith.

Cyfeiriwyd at y bwriad i gynnal gweithdai esboniadol ar draws yr ynys ac fe benderfynwyd:

- y dylid cynnal gweithdai rhwng mis Medi a'r Nadolig

- dosrannu'r cymunedau o fewn dalgylchoedd cynghorau tref, a hynny trwy ddilyn patrwm yr asesiadau llesiant arfaethedig sydd i'w cynnal yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**6. Cytuno'r camau nesaf**

**6.1 Llyfrgelloedd -** Cyfarfod i'w gynnal rhwng y Cyngor Sir a'r 5 Tref ynghylch llyfrgelloedd a'r Cyngor Sir i gael y cwestiynau ymlaen llaw – Cyng Margaret Thomas i gydlynu.

**6.2 Toiledau Cyhoeddus**

- Cynghorau Tref/Cymuned sy'n mynegi diddordeb i gynnwys rhestr gryno o'r materion y maent yn dymuno trafod ymhellach gyda'r Cyngor Sir gyda'u hymateb.
- Y Cyngor Sir, fel rhan o'i ymateb i'r Cynghorau sy'n mynegi diddordeb, i gadarnhau eu parodrwydd i drafod y materion a restrir
- Nodi bod Cyngor Tref Llangefni yn trafod y mater ar 4 Gorffennaf ac felly ddim mewn sefyllfa i ymateb erbyn y dyddiad cau.
- Y Cyngor Sir i ddarparu gwybodaeth am gostau atgyweirio toiledau unigol o ganlyniad i fandaliaeth a chamddefnydd yn y gorffennol.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**6.3 Teclyn Partneriaethol**

- Fersiwn haws i'w ddarllen o'r Teclyn Partneriaethol i'w gylchredeg i aelodau'r Grwp am sylwadau
- Gweithdai esboniadol i'w trefnu gan y Cyngor Sir – i'w cynnal rhwng mis Medi a Rhagfyr 2016 a'r trefniadau'n seiliedig ar batrwm yr asesiadau llesiant

**7. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**

Nodwyd y cynhelir cyfarfod o'r Fforwm Cyswllt ar nos Iau, 21 Gorffennaf 2016 am 7 yh.

**8. UFA** - Dim materion eraill.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 yh


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd: Y Cynghorydd Merion Jones
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym O Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o Mai 2016 at Mai 2017. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Bev Symonds ( Rheolwr Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752078
E-bost: BevSymonds@ynysmon.gov.uk

## PWRPAS YCHWANEGU'R EITEM AR RAGLEN Y PWYLLGOR SGRIWTINI:

- Trawsnewid Gwasanaethau- Diwylliant, Ysgolion a Hamdden
- Monitro Perfformiad, Cyllideb a Partneriaethau
- Sgriwtini cyn penderfyniad
- Datblygu Polisi / Ymgynghoriad
- Cais gan Bwyllgor / Aelod

## PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI

(1) Diogelwch Corfforaethol (Ebrill-Medi), yn parhau
(2) Gosod Tai Gwag yr Awdurdod Lleol ("voids"), (Ebrill-Medi), yn parhau

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **12 Mai 2016** | Ethol Cadeirydd Pwyllgor | Penodi Cadeirydd | Ystafell Pwyllgor 1 / 3.30 yh |
| | Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor | Penodi Is-Gadeirydd | |
| | | | |
| **23 Mai 2016** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 4 2015-2016 | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Gyllideb Refeniw chw 4 2015-16 | Monitro Cyllideb | |
| | Gyllideb Gyfalaf chw 4 2015-2016 | Monitro Cyllideb | |
| | Cynllun Gweithredu mewn ymateb i adroddiad AGGCC | Cais gan Aelod ( cyfeirnod pwyllgor: 15/12/15) | |
| | Costau Ymgynghorwyr | Cais gan Aelod (cyfeirnod at wybodaeth perfformiad ch3 – Mawrth 2016) | |
| | Adolygu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion | Trawsnewid | |
| | | | |
| **11 Gorffennaf 2016** | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2015-2016 ( Gwasanaethau Cymdeithasol) | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Adroddiad Blynyddol Cwynion- Gwrando a Dysgu o Gwynion (Gwasanaethau cymdeithasol) | Monitro Perfformiad | |
| | | | |
| **12 Medi 2016** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 1 2016-2017 | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Gyllideb Refeniw chw 1 2016- 2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Gyllideb Gyfalaf chw 1 2016-2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Tendro gofal cartref ar Ynys Môn | Sgriwtini cyn penderfyniad | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
| --- | --- | --- | --- |
| | Adroddiad Gwasanaethau Plant - ôl Gofal | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Trawsnewid Gwasanaeth Anableddau Dysgu | Cais gan Aelod am adolygiad ar ol 6 mis( cyfeirnod pwyllgor: 11/4/16) | |
| | Adroddiad Blynyddol Gwerthusiad Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol (gwasanaethau plant ac oedolion )- AGGCC - i'w gadarnhau | Monitro Perfformiad | |
| | Adroddiad Panel Canlyniad Sgriwtini- Diogelwch Corfforaethol | I'w dderbyn gan pwyllgor sgriwtini | |
| | | | |
| **14 Tachwedd 2016** | Dewisiadau Cychwynnol y Cyllideb 2017-2018 ( Deiliaid Portffolio a Phenaethiaid i fynychu) | Sgriwtini cyn penderfyniad | Siambr y Cyngor neu Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | | | |
| **21 Tachwedd 2016** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 2 2016-2017 | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Gyllideb Refeniw chw 2 2016- 2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Gyllideb Gyfalaf chw 2 2016-2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Gwasanaethau Oedolion - Taliadau Gofal Cartref a Theleofal | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **6 Chwefror 2017** | Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gyllideb Drafft 2017-2018 y Pwyllgor Gwaith | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Moderneiddio Gwasanaeth Anstatudol Hamdden (cyfnod o 3 blynedd). | Trawsnewid | |
| | | | |
| **13 Mawrth 2017** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 3 2016-2017 | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Gyllideb Refeniw chw 3 2016- 2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Gyllideb Gyfalaf chw 3 2016-2017 | Monitro Cyllideb | |
| | | | |
| **10 Ebrill 2017** | Eiddo- Adolygiad o Bapur Gwelliant Man- ddâliadau – i'w | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| | gadarnhau oherwydd cyfnod cyn etholiad | | |
| | | | |

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o Mai 2016 at Mai 2017. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

## PWRPAS YCHWANEGU'R EITEM AR RAGLEN Y PWYLLGOR SGRIWTINI:

- Trawsnewid Gwasanaethau- Llyfrgelloedd ac Ieuenctid
- Monitro Perfformiad, Cyllideb a Partneriaethau
- Pre-decision Scrutiny/ Sgriwtini cyn penderfyniad
- Datblygu Polisi / Ymgynghoriadau
- Cais gan Pwyllgor / Aelod

## PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI

(1) Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion (yn parhau)



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

(2) Sgriwtini ar y Cyd o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (yn parhau)

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **12 Mai 2016** | Ethol Cadeirydd Pwyllgor | Penodi Cadeirydd | Ystafell Pwyllgor 1 / 3.30 yh |
| | Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor | Penodi Is-Gadeirydd | |
| | | | |
| **13 Mai 2016** | Safleoedd Sispsiwns a Theithwyr | Sgriwtini cyn penderfyniad | Siambr y Cyngor /3.30 yh |
| | | | |
| **19 Gorffennaf 2016** | Safleoedd Sispsiwn a Theithwyr dros dro | Sgriwtini cyn penderfyniad | Siambr y Cyngor / 2 yh |
| | Strategaeth Iaith Gymraeg | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Datblygu sgriwtini o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Perfformiad partneriaeth | |
| | | | |
| **26 Medi 2016** | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Perfformiad partneriaeth | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | GwE –Dysgu o wella ysgolion. Herio a'r gefnogaeth a ddarperir i ysgolion, gan ganolbwyntio ar y rhai oren a choch yn y categori fframwaith perfformiad cenedlaethol. | Perfformiad partneriaeth | |
| | Protocol Gogledd Cymru ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Tachwedd 2016 – Cyfarfod arbennig, dyddiad i'w gadarnhau** | Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Trawsnewid | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Ieuenctid (Posibilrwydd angen ychwanegu Trawsnewid Gwasanethau Diwylliant) | Trawsnewid | |
| | | | |
| **22 Tachwedd 2016** | Cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn. (dyddiad i'w gadarnhau) | Perfformiad partneriaeth | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (dyddiad i'w gadarnhau) | Gwybodaeth cefndirol / Performiad partneriaeth | |
| | Allanoli – Cyfleusterau Cyhoeddus | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **16 Chwefror 2017** | Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Anableddau Dysgu - Phartneriaeth gyda Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd | Perfformiad partneriaeth | |
| | Iechyd- Meddwl - Phartneriaeth gyda Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd | Perfformiad partneriaeth | |
| | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Perfformiad partneriaeth | |
| | | | |
| **20 Ebrill 2017** | Partneriaeth Cymunedau Gyntaf | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Galw Gofal- Partneriaeth rhwng Cynghorau Gogledd Cymru | Perfformiad partneriaeth | |
| | Casglu Gwastraff Cartref - diweddariad ar gasglu gwastraff pob 3 wythnos | Monitro perfformiad | |
| | Lleoedd Llewyrchus, Llawn Addewid | Perfformiad Partneriaeth | |
| | Adolygiad o sut mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn monitro Partneriaethau Allweddol Strategol | Perfformiad Partneriaeth | |
| | | | |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English